# Adroddiad ar Ymchwiliad o dan God y Gweinidogion

1. Ar 12 Rhagfyr 2023, gofynnodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth i'r Prif Weinidog gychwyn ymchwiliad o dan God y Gweinidogion i honiadau a wnaed amdani gan Aelod Seneddol (AS) Gŵyr. Cytunodd y Prif Weinidog i'r cais hwn a gofynnodd i mi gynnal yr ymchwiliad yn unol â'r cylch gorchwyl canlynol:

> *“Ystyried ymddygiad Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth yn erbyn Cod y Gweinidogion yng ngoleuni sylwadau yr adroddwyd amdanynt yn y cyfryngau gan AS Gŵyr mewn cysylltiad â'r adolygiad annibynnol diweddar o Undeb Rygbi Cymru.”*

2. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn yn annibynnol ac yn wrthrychol gennyf ac yn unol â gwerthoedd Cod y Gwasanaeth Sifil. Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog ac i AS Gŵyr, a oeddent, ill dwy, yn gymwynasgar ac yn barod iawn i gydweithredu wrth i'r gwaith fynd rhagddo ac a wnaethant hefyd ddod o hyd i amser yn gyflym iawn er mwyn imi allu siarad â nhw. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r cydweithiwr o'm tîm a wnaeth fy nghynorthwyo wrth fy ngwaith.

## Y cefndir

3. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog gyfweliad i raglen Politics Wales a ddarlledwyd ar 10 Rhagfyr y llynedd. Fel rhan o'r cyfweliad hwnnw, atebodd y Dirprwy Weinidog nifer o gwestiynau ynglŷn ag Undeb Rygbi Cymru. Fe'i holwyd hefyd a ddylai fod wedi ymyrryd yn gynharach, yn enwedig mewn ymateb i wybodaeth a roddwyd iddi gan AS Gŵyr. Yn dilyn y cyfweliad hwnnw, cyhoeddodd AS Gŵyr ddatganiad ar 11 Rhagfyr a rhoddodd gyfweliad wedi hynny i Radio Wales Breakfast gan fynegi'r farn nad oedd y Dirprwy Weinidog wedi dweud y gwir yn ei chyfweliad am y cyfnewid a fu rhyngddynt ill dwy.

## Yr ymddygiad a ddisgwylir

4. Mae Cod y Gweinidogion yn dweud:

> *"Disgwylir i Weinidogion Llywodraeth Cymru gynnal safonau ymddygiad uchel ac ymddwyn mewn modd sy'n cynnal y safon uchaf o ran priodoldeb... Disgwylir iddynt, yn benodol, barchu Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus..."*

Gonestrwydd yw'r egwyddor berthnasol yn yr achos hwn, sy'n datgan:

> *"Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn eirwir."*

## Methodoleg

5. Cynhaliais yr ymchwiliad hwn drwy adolygu trawsgrifiad o'r cyfweliad gan y Dirprwy Weinidog, y datganiad a gyhoeddwyd gan AS Gŵyr a thrawsgrifiad o'r cyfweliad a roddodd i Radio Wales Breakfast. Adolygais hefyd y cyfnewid a fu rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y mater hwn. Cynhaliais gyfweliad â'r Dirprwy Weinidog ac â AS Gŵyr. Rhannodd y ddwy ohonynt, o'u gwirfodd, gopïau o'r cyfnewid perthnasol a fu rhyngddynt ar WhatsApp. Y cyfnewid hwn a arweiniodd, wedi hynny, at y pryderon a fynegwyd (enghreifftiau o gyfnewid preifat a phersonol oedd y rhain a oedd o gymorth i'm hymchwiliad ond nid ydynt wedi'u cadw). Cyfwelais â thri swyddog yng Nghyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru ac adolygais yr ohebiaeth swyddogol berthnasol rhwng y Dirprwy Weinidog ac AS Gŵyr, ynghyd â'r cyngor swyddogol a dderbyniodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd.

## Yr honiad

6. Ystyried a oedd y Dirprwy Weinidog yn eirwir yn yr hyn a ddywedodd yn ei chyfweliad gan y BBC am y cyfnewid a fu rhyngddi ag AS Gŵyr, drwy WhatsApp i ddechrau ac yna mewn gohebiaeth ysgrifenedig, yw'r mater dan sylw. Roedd y cyfnewid yn ymwneud â'r sefyllfa a oedd yn dod i'r amlwg yn Undeb Rygbi Cymru ac, yn benodol, y menywod yr effeithiwyd arnynt yn bersonol gan ymddygiad rhywiaethol.

7. Roedd yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei chyfweliad gan Politics Wales, a ddarlledwyd ar 10 Rhagfyr, ynglŷn â'r cyfnewid hynny fel a ganlyn:

*“When you're a backbench MP or a backbench MS,. You can do an awful lot more in terms of rattling cages and making noises...when you're a government minister you have a different responsibility...What I would say is if somebody brought to me evidence that was if you like supported by some kind of statement, even just a letter”*

*“what Tonia was telling me was in very general terms...”*

*“…I needed something more than just a kind of sense that there was a problem that couldn't be pinned down. So I did offer this to Tonia was for her to let me have the details of who it was what the details of their complaints were, that they could provide that to me in confidence. I would not be divulging that to anybody but it would give me the assurance, if you like, that what was being said was actually was real and was happening to these individuals. That never materialised. I never got that....those individuals subsequently went to the BBC. Had they come to me a year earlier and said to me “this is me. This is my story. This is what happened” I would have been in a very different situation.”*

8. Yn dilyn y cyfweliad gyda’r Dirprwy Weinidog, cyhoeddodd AS Gŵyr ddatganiad ar ei gwefan amdano a oedd yn cynnwys y canlynol:

*“Contrary to the statements in her (the Deputy Minister’s) interview, I provided her with contact details of several women across the WRU who were willing to speak with her about their experiences…..I first raised concerns regarding sexism and misogyny at the WRU with Dawn in early 2022 and she indicated that she was happy to speak with any of the women involved. I followed this up on multiple occasions, sharing the contact details of the women affected who were willing to meet with Dawn, as well as making her aware of the emotional impact this was having on these women….This was prior to the release of the BBC Wales documentary and there is a record of all of this correspondence that I’m happy to share….I am still unclear as to why Dawn chose not to contact these women.”*

9. Cafodd AS Gŵyr hefyd ei chyfweld ar BBC Breakfast Wales ar 12 Rhagfyr pan ddywedodd y canlynol:

*“It’s distressing to hear that that was being said about me and that I never gave those details. When I knew, and when I was party to the information, I looked for ways to do it without blowing any doors off,*

*without causing too much trouble, but looking for the most effective way to make change happen for the women that I spoke to. And I tried to do that, I was given evidence…I had a whiteboard in my office..*

*I wanted the Deputy Minister to be on the front foot, to know what was coming down the track later….I knew that I had to take responsibility for telling the people in the right places what was going on and introducing the women, who could make that change happen to the women who wanted to speak out…I had shared all of the details and they were given to the Deputy Minister."*

**Y dystiolaeth**

10. Y mater sylfaenol yw bod y Dirprwy Weinidog wedi dweud yn ei chyfweliad mai siarad mewn termau cyffredinol iawn oedd AS Gŵyr wrth ddweud wrthi am ymddygiad amhriodol yn Undeb Rygbi Cymru, ac nad oedd wedi cael manylion y gallai fod wedi gweithredu arnynt. Mewn ymateb, mae AS Gŵyr wedi dweud ei bod, mewn gwirionedd, wedi rhoi i'r Dirprwy Weinidog fanylion cyswllt sawl menyw ar draws Undeb Rygbi Cymru a oedd yn barod i siarad â hi am eu profiadau ac y gallai'r Dirprwy Weinidog fod wedi gweithredu.

11. Roedd y ddwy ochr yn barod iawn i rannu'r cyfnewid ar y pwnc hwn â mi ac rwyf wedi mynd drwy'r rhain yn ofalus iawn. Mae natur y cyfnewid yn gyfeillgar ac yn adeiladol, ac mae pryder y ddwy am y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg yn Undeb Rygbi Cymru i'w weld yn glir.

12. Rwyf wedi nodi, yn ystod y cyfnewid rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022, fod AS Gŵyr wedi rhoi enwau a manylion cyswllt tair menyw i'r Dirprwy Weinidog, a bod gan y tair, meddai, brofiad uniongyrchol o ymddygiad amhriodol yn Undeb Rygbi Cymru. Cafodd y Dirprwy Weinidog ei hannog gan AS Gŵyr i gysylltu â'r menywod er mwyn iddi gael clywed eu straeon gan y menywod eu hunain. Ni wnaeth AS Gŵyr gynnwys manylion eu profiadau. Rwyf wedi nodi hefyd fod y Dirprwy Weinidog, o'i rhan hi, wedi dweud wrth AS Gŵyr mai'r hyn a fyddai wirioneddol o gymorth i Lywodraeth Cymru fyddai pe bai rhywun yn ysgrifennu ati yn ffurfiol a chwyno gan roi enghreifftiau.

13. Mewn un cyfnewid, dywedodd y Dirprwy Weinidog na allai hi fel Gweinidog y Llywodraeth fynd ati i chwilio am gwynion a'i bod wedi gofyn am dystiolaeth neu ddatganiadau. Ymatebodd AS Gŵyr fod y menywod

yn dymuno cael sgyrsiau preifat i fynegi eu pryderon. Ymateb y Dirprwy Weinidog oedd y gallent ysgrifennu ati yn breifat ac yn gwbl gyfrinachol, ond pwysleisiodd unwaith eto na allai fynd ati i chwilio am gwynion. Pe bai ffolder o dystiolaeth yn cael ei gyflwyno iddi, yna mae'n debyg y gallai alw am ymchwiliad. Fodd bynnag, pe bai'r ymchwiliad hwnnw yn cael ei gynnal, byddai'n rhaid i'r menywod dan sylw gyflwyno eu hunain. (Gwnaed ymdrechion gan y Dirprwy Weinidog i siarad ag Amanda Blanc ond, fel y nodwyd yn ei llythyr i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 21 Chwefror 2023, nid oedd Amanda Blanc am dderbyn y cynnig i gael sgwrs).

14. Anfonwyd llythyr mwy ffurfiol hefyd oddi wrth AS Gŵyr at y Dirprwy Weinidog, dyddiedig 9 Mai, lle dywedodd AS Gŵyr ei bod wedi siarad â thri unigolyn yn Undeb Rygbi Cymru a oedd yn rhannu ei phryderon am y sefydliad. Yn y llythyr hwn, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog siarad â'r unigolion hyn yn gyfrinachol er mwyn cadarnhau'r pryderon a fynegwyd yn y llythyr. Yn ei hymateb hithau i'r llythyr hwnnw, dyddiedig 24 Mai, dywedodd y Dirprwy Weinidog y dylai unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n dymuno mynegi cwynion neu bryderon ddilyn polisïau cwynion neu chwythu'r chwiban y sefydliad yn y lle cyntaf, cyn penderfynu a ddylid uwchgyfeirio materion ymhellach ai peidio. Dywedodd hefyd nad oedd wedi derbyn unrhyw sylwadau uniongyrchol ynghylch unrhyw bryderon a amlygwyd yn y llythyr oddi wrth AS Gŵyr.

**Casgliadau**

15. Dywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei chyfweliad mai gwybodaeth gyffredinol oedd yr hyn a dderbyniodd oddi wrth AS Gŵyr a'i bod wedi gofyn am enwau a manylion y pryderon. Teimlai fod arni angen tystiolaeth ynghyd â datganiad i gefnogi'r dystiolaeth honno. Nid oedd yn gwbl gywir iddi ddweud nad oedd hynny erioed wedi dod i law oherwydd ei bod, mewn gwirionedd, wedi cael tri enw gan AS Gŵyr. Ond roedd y Gweinidog yn gywir wrth ddweud nad oedd hi wedi cael unrhyw fanylion ynghylch natur eu pryderon, nac unrhyw ddatganiadau ganddynt.

16. Rwy'n credu bod llawer o hyn i'w briodoli i'r ffaith bod dwy wahanol ddealltwriaeth o'r un set o ffeithiau. Rwy'n hyderus bod y Dirprwy Weinidog yn ddiffuant yn ei chred, a fynegodd yn ei chyfweliad, nad oedd digon o wybodaeth fanwl wedi'i darparu iddi gan AS Gŵyr er mwyn iddi allu mynd ar drywydd materion gyda'r unigolion dan sylw, ac y byddai wedi

bod yn amhriodol iddi fel Gweinidog y Llywodraeth geisio mynd ati ei hun i weithredu ar hyn. Rwyf yr un mor hyderus bod AS Gŵyr yn ddiffuant wrth gredu bod digon o wybodaeth, ac y dylai'r Dirprwy Weinidog fod wedi mynd ar drywydd y manylion.

17. Nid wyf yn amau diffuantrwydd y naill barti na'r llall ac roedd ymrwymiad y ddwy i frwydro yn erbyn ymddygiad amhriodol yng Nghymru yn glir yn y cyfweliadau a gefais gyda nhw.

18. Rwy'n credu na ddylai'r Dirprwy Weinidog fod wedi dweud yn ei chyfweliad nad oedd AS Gŵyr wedi rhoi enwau iddi, gan nad oedd hynny'n gywir. Fodd bynnag, rwy'n nodi hefyd mai dim ond un o nifer o faterion yr ymdriniwyd â nhw mewn cyfweliad cyflym ac eang ei gwmpas oedd hwn. Roedd hi wedi egluro yn ei chyfnewid nad oedd yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan AS Gŵyr yn ddigonol iddi weithredu, o ystyried ei swydd fel Gweinidog. Cafodd y farn hon ei chefnogi gan y cyngor swyddogol a dderbyniodd wedi i AS Gŵyr ddod i gysylltiad yn ffurfiol.

19. Yn fy marn i, nid yw'r camosodiad gan y Dirprwy Weinidog am enwau yn gyfystyr ag anwiredd nac yn gyfystyr â thorri Cod y Gweinidogion. Nid wyf yn credu bod y Dirprwy Weinidog yn ceisio camarwain yn fwriadol ac rwy'n credu bod hanfod yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei chyfweliad yn gynrychiolaeth onest o'r cyfnewid a fu rhyngddi ag AS Gŵyr. Rwy'n credu hefyd y gallai fod wedi bod yn ddefnyddiol pe bai’r Dirprwy Weinidog wedi bod yn fwy parod i gydnabod bod AS Gŵyr, fel hi ei hun, wedi'i hysgogi gan awydd i geisio diogelu'r menywod dan sylw a sicrhau newid mewn diwylliant yn Undeb Rygbi Cymru. Pe bai mwy o amser wedi bod yn y cyfweliad, mae'n ddigon posibl y byddai'r Dirprwy Weinidog wedi gwneud y ddau bwynt. Ond nid wyf yn credu bod y Dirprwy Weinidog wedi ceisio camarwain yn fwriadol na dweud anwiredd yn ei sylwadau, ac nid yw Cod y Gweinidogion wedi'i dorri felly.

**David Richards** **Ionawr 2024**

**Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg**